**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mercher, 12 Mai 2021 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | B Hopkins | O G James |
| L R Jones | M B Lewis | S Pritchard |
| D W W Thomas | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Helen Morgan-Rees | cyfarwyddwr addysg |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M A Langstone

---

## 20 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 21 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021 fel cofnod cywir.

## 22 Cefnogi Adferiad Addysg.

Cyflwynodd Helen Morgan-Rees adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr argymhellion yr oedd y Pwyllgor Datblygu Polisi Addysg a Sgiliau wedi'u datblygu yn dilyn ei waith trafod, adolygu, archwilio a chasglu tystiolaeth sy'n ymwneud ag effaith pandemig COVID ar ddarpariaeth addysg ar draws Abertawe.

Fel rhan o adolygiad y pwyllgor datblygu polisi o dystiolaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2020-2021, daeth yn amlwg bod pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau a chyfleoedd ar gyfer gwella addysg, parhad dysgu a datblygu sgiliau mewn blwyddyn eithriadol o reoli argyfwng a tharfu sylweddol ar addysg, sydd wedi effeithio ar ddisgyblion ac aelodau staff.

Nododd fod yr adroddiad yn dwyn ynghyd holl waith y pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae wedi arwain at ddatblygu'r tri argymhelliad canlynol:

1. Caiff pob ysgol ei chefnogi a'i monitro i gynnal a gwella'r dulliau dysgu cyfunol a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.
2. Datblygu ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol.
3. Mae'r broses o ledaenu arfer da'n systematig mewn dysgu cyfunol a chefnogi iechyd a lles emosiynol yn cael ei chyflymu.

Cafodd y gwahanol sylwadau, safbwyntiau a thystiolaeth a gyflwynwyd ac a ystyriwyd gan y pwyllgor eu hamlinellu a'u nodi yn yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i Helen Morgan-Rees am ei chefnogaeth i'r Pwyllgor ac am ddrafftio'r adroddiad, a diolchodd i'r holl swyddogion am yr wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynwyd ac a drafodwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Penderfynwyd** bod yr argymhellion a amlinellir uchod yn yr adroddiad yn cael eu cefnogi a'u cymeradwyo a bod yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar 17 Mehefin 2021.

**23 Cynllun Gwaith.**

Nododd y Cadeirydd y byddai'r cynllun gwaith ar gyfer 2021-22 yn cael ei drafod yng nghyfarfod y pwyllgor ar 16 Mehefin.

Dywedodd ei fod wedi derbyn awgrym bod pwnc mentoriaid dysgu cymunedol yn un y gellid ei ystyried wrth symud ymlaen. Byddai'r pwnc hwn yn cael ei drafod ynghyd â phynciau eraill yn y cyfarfod nesaf.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.21 pm

**Cadeirydd**